

## Bwrdd Cymwysterau Cymru

### Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2021

#### Yn bresennol:

**Bwrdd Cymwysterau Cymru:** David Jones (DJ) (Cadeirydd), Anne-Marie Duffy (AMD), David W Jones (DWJ), Jayne Woods (JW), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Philip Blaker (PB), Hannah Burch (HB) – Sesiwn prynhawn, Sharron Lusher (SL), Graham Hudson (GH), Michael Griffiths (MG), Douglas Blackstock (DB).

**Staff Cymwysterau Cymru:** Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Leonie White (LW), Catrin Verrall (CV) (Eitemau 6 a 7), Mark Pender (MP), Kerry Price (KP) (Eitemau 9, 10, 11 a 12), Lisa Evans (LE) (Eitemau 8, 9, 10, 11 a 12), Osian Llywelyn (OLI) (Cymerwr cofnodion).

**Llywodraeth Cymru:** Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

**Ymddiheuriadau:** Hannah Burch (HB) ar gyfer sesiwn y bore

#### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, gan nodi ei bod yn dda croesawu nifer o aelodau'r Bwrdd i'r swyddfa am y tro cyntaf. Croesawodd y Cadeirydd hefyd MP a oedd yn mynychu ei gyfarfod bwrdd cyntaf yn ei rôl newydd fel Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol.
- 1.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod HB wedi ymddiheuro am sesiwn y bore ac nad oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

#### 2. Cofnodion y Bwrdd a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021 a diweddariad Camau Gweithredu

- 2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel y'u cyflwynwyd fel cofnod cywir o'r trafodaethau.
- 2.2. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr un cam gweithredu a oedd heb ei wneud yn dilyn y cyfarfod diwethaf yn ymwneud â'r ymchwil ar gyfranogiad athrawon mewn asesu mewn awdurdodaethau eraill, gan gadarnhau y byddai'r gwaith hwn yn cael ei rannu â'r Bwrdd ym mis Hydref.

#### 3. Adroddiad y Cadeirydd

- 3.1. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod bellach wedi'i drefnu gyda chynrychiolwyr Cymdeithas yr Iaith ar gyfer 27 Gorffennaf i drafod ein cynigion yn ymwneud â'r

Gymraeg o'n hymgyngoriad Diweddar Cymwys ar gyfer y Dyfodol, ac y byddai'n mynychu ochr yn ochr ag EG, CV ac MG.

- 3.2. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad pellach ynghylch penodiadau'r Bwrdd, gan gadarnhau bod hyn yn cael ei symud ymlaen drwy Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac y byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog eu hystyried yn fuan. Cadarnhaodd JV y byddai cyngor ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog yn gynnar yr wythnos nesaf.
- 3.3. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd ei fod wedi mynychu sesiwn hyfforddi gyda chydweithwyr Gweithredol ddydd Llun 12 Gorffennaf, a oedd yn edrych ar rai o'r materion cyfreithiol allweddol y dylai rheoleiddwyr fod yn ymwybodol ohonynt. Trafododd y sesiwn hon nifer o faterion defnyddiol, gan gynnwys y broses adolygu barnwrol, arfer da a rôl ymgynghori yn y modd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau.

#### **4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

- 4.1. Esboniodd PB, gan nad oedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi cyfarfod ers peth amser a bod adroddiadau diweddar i'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar ein gwaith diwygio, ei fod yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol rhoi crynodeb i'r Bwrdd o waith y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio dros y misoedd diwethaf.
- 4.2. Nododd PB mai un o'r pwyntiau mwyaf perthnasol yr oedd am dynnu sylw'r Bwrdd ato oedd ein gwaith yn edrych ar hyfywedd ariannol cyrff dyfarnu a reoleiddir, yn enwedig o ystyried y cyd-destun gweithredu anodd dros y 18 mis diwethaf. Y neges allweddol o'r gwaith hwn yw nad oes, ar hyn o bryd, unrhyw bryderon sylweddol ynghylch methiant tebygol corff dyfarnu.
- 4.3. Esboniodd PB y cafwyd rhywfaint o adborth ynghylch ffioedd ar gyfer dyfarnu cymwysterau yr haf hwn, gyda rhai rhanddeiliaid yn galw am ddull llyfr agored gan CBAC. Ychwanegodd PB fod CBAC yn amharod i wneud hynny am resymau masnachol.
- 4.4. Soniodd PB am y blaenoriaethau allweddol presennol, a oedd yn cynnwys sefydlu trefniadau wrth gefn ar gyfer cyfres haf 2022, cyflawni Cymwys ar gyfer y Dyfodol, y broses ddyfarnu ar gyfer 2022 a sesiynau briffio diwrnod canlyniadau. Esboniodd PB ein bod ar hyn o bryd yn adolygu'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael ar gyfer 2022 ac yn ystyried y dulliau a ddefnyddiwyd mewn awdurdodaethau eraill yn 2021.
- 4.5. Nododd PB nad oedd y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni wedi mynegi unrhyw awydd cryf i symud i ffwrdd o'r sefyllfa bresennol o gynnal arholiadau ac asesiadau arferol y flwyddyn nesaf, ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol pan gafodd y bwriad hwn ei gyfleu'n ehangach yn ddiweddar gyda rhanddeiliaid. Cadarnhaodd PB y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn fanylach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

- 4.6. Esboniodd PB y byddai angen gwneud cryn dipyn o waith yn ystod y 12 mis nesaf i ddatblygu cymwysterau newydd mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd. Esboniodd PB y byddai hyn yn heriol am sawl rheswm, gan gynnwys penderfyniad diweddar y Gweinidog i beidio ag oedi'r gweithredu, a'n bwriad i ymgysylltu'n ddwys â rhanddeiliaid ac i ddarparu'r cymwysterau newydd hyn mewn un don.
- 4.7. Er mwyn cyflawni hyn, cadarnhaodd PB y byddai angen sicrhau adnoddau ychwanegol ac roedd sgysiau eisoes wedi'u cynnal ynghylch yr angen am adleoli mewnol. Roedd hyn yn debygol o effeithio ar feysydd eraill o'n gwaith, gan gynnwys gweithgareddau rheoleiddio busnes arferol.
- 4.8. Cydnabu PB y byddai'r gweithdrefnau dyfarnu ar gyfer 2022 yn fater dadleuol, a bod angen inni werthuso'r holl opsiynau posibl a chytuno ar safbwynt. Ychwanegodd PB fod hwn yn faes technegol cymhleth, a byddai angen inni ddeall yn well y dulliau a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill - yn enwedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon lle mae TGAU, UG a Safon Uwch yn fathau o gymwysterau a rennir. Eto, byddai'r mater hwn yn cael ei drafod yn fanylach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
- 4.9. Esboniodd PB fod nifer o ddeunydd cyfathrebu'n cael eu cynhyrchu cyn diwrnodau canlyniadau, gan gynnwys datganiad newyddion, cynnwys ar y we a chrynodeb o'r canlyniadau. Ychwanegodd PB y byddai'n bwysig i ddulliau cyfathrebu gael eu cydgysylltu'n ofalus â'r JCQ a rheoleiddwyr eraill ac i'r cyfryngau gael eu briffio'n effeithiol.
- 4.10. Cadarnhaodd PB fod cynllun peilot ar y gweill yn cynnwys agor y swyddfa ddeuddydd yr wythnos ar gyfer nifer cyfyngedig o staff, ac y byddem yn defnyddio hyn fel cyfle i fonitro a sefydlu sut yr ydym am ddatblygu trefniadau gweithio 'hybrid' effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- 4.11. Diolchodd y Bwrdd i PB am ei adroddiad, a rhoddodd y sylwadau canlynol:
- cwestiynwyd i ba raddau roedd y sylwadau ar y trefniadau ar gyfer 2022 yn cyd-fynd â'r hyn sydd wedi'i gyfleu hyd yma gan yr Adran Addysg (DfE) yn Lloegr;
  - nodwyd pwysigrwydd datblygu cynlluniau wrth gefn a bod yn hyblyg;
  - yr angen i fod yn ymwybodol o'r hyn yr ydym yn paratoi'r rhai sy'n gadael yr ysgol ar ei gyfer, yn enwedig gyda'r potensial ar gyfer newid yn y dull o asesu mewn sefydliadau addysg uwch yn dilyn y pandemig hwn, a
  - cwestiynwyd ai 2023 fyddai'r pwynt priodol i ailosod safonau, o ystyried y ffaith y byddai 2022 yn seiliedig ar asesiadau wedi'u haddasu.
- 4.12. Mewn ymateb, cadarnhaodd PB fod y dull arfaethedig yn cyd-fynd â'r dull yn Lloegr.
- 4.13. Esboniodd PB y byddai'r broses ddyfarnu yn 2022 yn gymhleth a bod trafodaethau wedi'u trefnu gyda rheoleiddwyr eraill a CBAC ar y ffordd orau ymlaen.

## 5. Haf 2021 a Threfniadau asesu a dyfarnu ar gyfer 2022 - Diweddariad

- 5.1. Rhoddodd JR ddiweddariad ar y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer haf 2021 a 2022. Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys y canlynol:
- amserlenni a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyflwyniadau canolfannau o Raddau a Benderfynwyd gan y Ganolfan a cham adolygu canolfannau'r broses apelio eleni;
  - trafodaethau diweddar gyda CBAC, Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU;
  - deunydd cyfathrebu arfaethedig a gweithgareddau diwrnodau canlyniadau ac ar ôl y diwrnod canlyniadau;
  - cynllunio a chynlluniau wrth gefn haf 2022, a
  - briff ar ganlyniadau cymwysterau haf 2021.
- 5.2. Atgoffodd JR aelodau'r Bwrdd fod y wybodaeth am ganlyniadau cymwysterau 2021 yn cael ei hystyried yn swyddogol sensitif ac felly'n cael ei rhannu o dan reolau mynediad cyn rhyddhau llym.
- 5.3. Diolchodd y Bwrdd i JR am y cyflwyniad manwl, a thrafododd y canlynol:
- y gwaith sicrhau ansawdd yr oedd CBAC yn ei wneud ar hyn o bryd;
  - goblygiadau posibl y canlyniadau yn seiliedig ar y data dros dro a ddarparwyd;
  - cymaroldeb canlyniadau ag awdurdodaethau eraill y DU, a'r
  - negeseuon allweddol y byddem am eu cyfleu'n rhagweithiol ar ddiwrnodau canlyniadau, a'n hymateb i gwestiynau sy'n debygol o gael eu codi gan randdeiliaid.

## 6. Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y Dewis Cywir i Gymru - Ein Penderfyniadau

- 6.1. Cyflwynodd CV ac EG bapur QWB48.6.
- 6.2. Eglurodd EG mai nod y papur oedd ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer pob argymhelliad a wnaed mewn perthynas â'r cynigion yr ydym wedi ymgynghori yn eu cylch a rhoi cyfle i'r Bwrdd ofyn unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon oedd ganddynt ar hyn o bryd. Atgoffodd PB aelodau'r Bwrdd o ddiben ymgynghoriad ac er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gefnogaeth i bob cynnig yn ffactor pwysig i'w ystyried, nid dyna'r unig ffactor.
- 6.3. Cyflwynodd CV bob argymhelliad a'r rhesymeg ategol i'r Bwrdd ei hystyried. Esboniodd CV, o'r 23 o gynigion a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn, y byddai 18 o argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried fel rhan o'r eitem hon ar yr agenda. Roedd hyn o ganlyniad i dri chynnig a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud gwaith pellach cyn gwneud argymhellion, a dau gynnig sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud gwaith pellach cyn y gallwn wneud argymhelliad. Felly, roedd cyfanswm o bum cynnig nad oeddent yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd heddiw, sef:

- Creu cymwysterau TGAU iaith a llenyddiaeth cyfunol newydd mewn Cymraeg a Saesneg i ddisodli'r cymwysterau TGAU ar wahân presennol.
  - Creu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r set bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.
  - Creu cyfres o gymwysterau gwyddoniaeth bach y gellir eu cymryd yn ogystal â'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig.
  - Rhoi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg.
  - Creu cyfres o gymwysterau sgiliau Cymraeg bach y gellir eu cymryd yn ogystal â TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd continwwm y Gymraeg.
- 6.4. Datganodd MG ddiddordeb mewn perthynas â'r drafodaeth ynghylch cynigion Mathemateg, oherwydd ei fod yn ymwneud ag arwain Grŵp MDPH Mathemateg a Rhifedd Llywodraeth Cymru a'i fod wedi cadeirio grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2015 a oedd yn edrych ar ba gamau y gellid eu cymryd i wella deilliannau mathemateg yng Nghymru.
- 6.5. Rhoddodd y Bwrdd nifer o sylwadau mewn ymateb i'r argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- cwestiynwyd a fyddai'r cynnig i ddatblygu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Dawns a wnaed i Gymru ar gyfer TGAU;
  - mewn perthynas â'r Maes Iechyd a Lles, holwyd a oeddem yn teimlo y gallai'r disgyblaethau pwnc yn y Maes Iechyd a Lles gael eu hintegreiddio'n gysyniadol i un cymhwyster;
  - gofynnwyd am eglurder ynghylch beth fyddai'r mesur dichonoldeb a hyfywedd ar gyfer Cymhwyster Astudiaethau Cymdeithasol a'r Dyniaethau integredig;
  - cwestiynwyd a fyddai rhai pynciau gwyddor gymdeithasol, megis economeg, y gyfraith, gwleidyddiaeth a llywodraeth yn cael eu cynnwys yn y cymhwyster Astudiaethau Cymdeithasol newydd;
  - cytunwyd y gallai fod yn synhwyrol ystyried cyflwyno cymhwyster Dyniaethau integredig unwaith y bydd y dull rhyngddisgyblaethol, cyfannol a ragwelir gan y cwricwlwm newydd wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws ysgolion ac ystyried defnyddio 'gohirio' (*defer*) yn lle 'gwrthod' (*reject*);
  - cynghori cydweithwyr am yr angen i ystyried goblygiadau adnoddau i ysgolion a cholegau wrth gyflwyno rhai o'r cymwysterau hyn, gan gyfeirio'n benodol at y TGAU Peirianeg a Gweithgynhyrchu;
  - gofynnwyd am eglurder ynghylch y gwaith yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â'r disgwyliadau ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg o fewn fframwaith y cwricwlwm;
  - nodwyd pwysigrwydd cyfathrebu clir a chadarn am ein penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â'r cynigion ieithoedd, mathemateg a gwyddoniaeth;
  - gofynnwyd a oedd TGAU Almaeneg yn parhau i fod yn gymhwyster hyfyw;
  - nodwyd pryderon rhai ymarferwyr ynghylch lleihau maint a statws cymhwyster Mathemateg, a chwestiynwyd a allai hyn fod â goblygiadau posibl o ran canlyniadau yn y pwnc hwn yn y dyfodol;

- cwestiynwyd sut y byddai addysg uwch a chyflogwyr yn gweld gostyngiad mewn maint ar gyfer Mathemateg-Rhifedd;
  - gofynnwyd pa gamau ymarferol oedd yn cael eu cymryd rhwng nawr a mis Medi cyn cwblhau argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â'r Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg;
  - cyfeiriwyd at adroddiad diweddar yr OECD yn yr Alban, a'i ganfyddiad yn ymwneud â chamddechongli rhwng dyheadau'r Cwricwlwm er Rhagoriaeth a'r system gymwysterau, a
  - gofynnwyd sut yr oeddem yn bwriadu cyfleu'r ffactorau llwyddiant o ran y ffordd y mae'r cymwysterau newydd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- 6.6. Cadarnhaodd EG, wrth i drafodaethau ddechrau gyda rhanddeiliaid ar gynllun posibl cymhwyster Dawns wedi'i wneud ar gyfer Cymru, y byddwn yn ymchwilio i ba raddau y gellir cyflawni hyn fel TGAU. Fel rhan o'r trafodaethau hynny, ystyriaeth allweddol fydd y tebygolrwydd o ennyn diddordeb gan y cyrff dyfarnu hynny sy'n gallu darparu cymwysterau TGAU; os bydd hyn yn parhau i fod yn her, byddwn yn edrych ar opsiynau amgen o ran y math o gymhwyster.
- 6.7. Eglurodd EG a PB fod yna gyfle, o ran addysgu a dysgu, am ymagwedd fwy cynnil at integreiddio ar draws pynciau'r dyniaethau trwy annog cysylltiadau cryfach rhwng pynciau trwy annog cysylltiadau cryfach rhwng disgyblaethau pwnc.
- 6.8. Mewn perthynas â'r cynigion a'r argymhelliad mewn perthynas â'r MDPH Mathemateg a Rhifedd, nodwyd bod cyflwyno TGAU Mathemateg Rhifedd ar wahân yn ddatblygiad diweddar, ac mai TGAU Mathemateg yn unig sydd gan awdurdodaethau eraill – er bod hyn yn cael ei gydnabod fel un TGAU sy'n gofyn am fwy o oriau dysgu dan arweiniad.
- 6.9. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch maint cymwysterau, esboniodd PB ac EG, er bod cyfeiriadau at faint wedi profi'n ddi-fudd yn yr ymgynghoriad, ei bod yn bwysig pwysleisio mai bwriad maint bob amser oedd bod yn ganllaw tybiannol ac na ddylid ei ystyried yn rheol absoliwt. Ychwanegodd EG fod maint yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i roi syniad o ba mor hir y gallai dysgwr nodweddiadol gymryd i astudio cymhwyster, neu fel amcangyfrif o'r amser addysgu ac asesu.
- 6.10. O ran hyfywedd, teimlai EG fod yr ymateb cadarnhaol i'n cynnig ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn dangos ymateb cadarnhaol tebygol yn y farchnad a fyddai'n ei wneud yn gymhwyster hyfyw i gorff dyfarnu ei ddatblygu a'i gyflwyno.
- 6.11. Cadarnhaodd EG y byddai'r pynciau gwyddorau cymdeithasol hynny y soniodd y Bwrdd amdanynt yn cael eu harchwilio wrth ddatblygu'r TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd. Fodd bynnag, roedd EG am dynnu sylw at yr her anochel o greu cymhwyster cydlynol sy'n cwmpasu pob agwedd ar y disgyblaethau pwnc hynny.

- 6.12. Cyfeiriodd EG a PB at flaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'i menter Dyfodol Byd-eang, a bod Almaeneg fel pwnc yn dal i fod yn gymaradwy o ran y nifer sy'n astudio ieithoedd eraill sy'n tyfu. Nododd EG y penderfyniad i ddatblygu cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a wnaed ar gyfer Cymru, ac y byddem yn ymgysylltu â chyrrff dyfarnu sydd ag arbenigedd yn y maes hwn yn ystod cam nesaf ein gwaith i ystyried a ellid cyflwyno hwn fel cymhwyster TGAU.
- 6.13. Cydnabu EG yr anhawster o ran cysyniadu'r gwahaniaethau allweddol rhwng yr hyn a gynigir ar hyn o bryd, a'r hyn a gaiff ei gynnig i ddysgwyr yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, nododd EG fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu darlun gweledol i helpu i gyfleu un o'n prif sbardunau wrth wneud y penderfyniadau hyn, sef cynnig mwy o hyblygrwydd i adlewyrchu ehangder a chydbwysedd eu cwricwlwm ysgol ac i ryddhau amser ar gyfer addysgu a dysgu ystyrlon.
- 6.14. Cadarnhaodd EG y byddai gohebiaeth yn cael ei chyfnewid rhyngom ni a'r Gweinidog dros y misoedd nesaf ac y byddai hyn ar gael i'r cyhoedd. Esboniodd EG y byddai hyn yn helpu i egluro sut yr ydym yn gweld gwaith y ddau sefydliad yn ategu ei gilydd wrth i ni symud i'r cam nesaf: gweithredu'r cwricwlwm newydd a chyflwyno cymwysterau newydd sy'n cyd-fynd â nodau'r cwricwlwm hwnnw yn y drefn honno.
- 6.15. Diolchodd EG i CV, OLI ac Elan Richards am gynhyrchu papur cynhwysfawr i'r Bwrdd, gan ganiatáu trafodaeth ffrwythlon a gwybodus ar bob un o'r cynigion.
- 6.16. Cymeradwyodd y Bwrdd yr holl argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r papur, ac eithrio ar gyfer creu cymhwyster TGAU cyfunol newydd Mathemateg a Rhifedd i gymryd lle'r ddau gymhwyster TGAU mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd cyfredol. Cytunwyd y byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei ohirio nes bod trafodaethau pellach gydag ymarferwyr uwchradd wedi'u cynnal.
- 6.17. Cytunodd y Bwrdd y dylid cyflwyno argymhelliad terfynol ar y cymhwyster TGAU Mathemateg-Rhifedd ochr yn ochr â'r cynigion hynny sy'n ymwneud â'r Meysydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yng nghyfarfod mis Medi.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:**

- I. **EG i drefnu cyfarfod a chynnal trafodaethau gyda'r grŵp cynrychiolwyr uwchradd ar y cynnig i greu cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd cyfunol newydd.**
  - II. **Argymhelliad terfynol yn ymwneud â chymhwyster Mathemateg-Rhifedd i'w gyflwyno i'w ystyried ymhellach gan y Bwrdd ochr yn ochr â phenderfyniadau eraill sy'n weddill yng nghyfarfod mis Medi.**
7. **Dewis i Bawb: Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg (Adroddiad Gweithredu Blwyddyn 1)**



- 7.1. Cyflwynodd CV bapur QWB48.7.
- 7.2. Eglurodd CV fod y strategaeth wedi'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020, a'i phwrpas oedd nodi sut y byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg erbyn 2025. Ychwanegodd CV fod y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed yn erbyn y pedwar maes ffocws strategol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- 7.3. Nododd CV fod y flwyddyn gyntaf o waith yn canolbwyntio ar osod sylfeini cadarn ar gyfer gweithredu'r strategaeth, a bod gwaith ar y gweill i roi cyhoeddusrwydd i'r cynnydd a wnaed gyda'n rhanddeiliaid. Ychwanegodd CV y byddem yn adrodd i'r Bwrdd eto yn haf 2022 ar y cynnydd pellach a wnaed yn erbyn ein hamcanion a'n dangosyddion allweddol.
- 7.4. Diolchodd y Bwrdd i CV ac Elan Richards am y papur a nododd ei bwysigrwydd strategol i'r sefydliad. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd amlygu a chyfleu'r risg na fyddai pob cymhwyster cyn-16 a ariennir yn gyhoeddus ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2025, cyn gynted â phosibl. Nododd EG y byddem yn gwneud hynny yr hydref hwn wrth i ni ddechrau cyfathrebu â rhanddeiliaid ar y gwaith o sicrhau'r cynnig cymhwyster ehangach i bobl ifanc 14-16 oed.
- 7.5. Nododd y Bwrdd y gwaith a gwblhawyd hyd yma.

## **8. Y wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb 2020/21**

- 8.1. Cyflwynodd AS bapur QWB48.8.
- 8.2. Esboniodd AS fod gwaith yn parhau o ran cwblhau'r adroddiad cynnydd drafft, ac y byddai hyn yn cael ei gyhoeddi gan y Pwyllgor Gweithredol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Diben yr eitem hon felly oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ein hamcanion cydraddoldeb, y meysydd y byddwn yn adrodd arnynt a chytuno ar amserlenni ar gyfer pennu ein hamcanion pedair blynedd.
- 8.3. Esboniodd AS, yn dilyn trafodaethau gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, eu bod yn ffafrio bod pob corff a noddir yn gosod eu hamcanion pedair blynedd ar yr un pryd (cylch 2020-2024). Er mwyn alinio ein gwaith, byddai hyn yn golygu adolygu ac adnewyddu ein hamcanion cyn mis Mawrth 2022 ond gyda'r adolygiad mawr nesaf yn digwydd yn 2023 i amcanion newydd fod yn gymwys o 1 Ebrill 2024. Yn amodol ar gytundeb y Bwrdd, byddem felly'n bwriadu gweithredu'r dull hwn i sicrhau ein bod yn cyd-fynd â chyrrff eraill.
- 8.4. Nododd AS rai o'r uchafbwyntiau ar gyfer 2020/21 a fyddai'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiad cynnydd. Roedd y rhain yn cynnwys cyflawni ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a chyrraedd safon 'Aur' yng nghynllun gwobr Chwarae Teg fel cyflogwr cynhwysol.
- 8.5. Cynigiodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:



- llongyfarchwyd y sefydliad a'r staff ar gyflawni'r gwobrau hyn, gan nodi ei bwysigrwydd i ddarpar weithwyr a dull effeithiol o gynyddu nifer yr ymgeiswyr anabl, a
  - holwyd a ddylai'r Bwrdd gael trafodaeth o bryd i'w gilydd ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng nghyd-destun gwaith y Bwrdd.
- 8.6. Cytunodd y Cadeirydd ac AS y byddai angen cynnal trafodaethau pellach cyn cytuno ar amcanion ar gyfer 2022. Gofynnodd AS hefyd i unrhyw feysydd o ddiddordeb gael eu cyfleu iddi, ac y byddai sesiwn ddilynol yn cael ei threfnu mewn ffordd a fyddai'n fwyaf defnyddiol a buddiol i aelodau.
- 8.7. Nododd AS ein bod wrthi'n ystyried a allem weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, neu fel arall rai o'r Cymdeithasau Tai mewn cynllun mentora ar gyfer unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig a allai fod wedi bod yn aflwyddiannus yn ddiweddar mewn cyfweiliadau ar gyfer aelodaeth y Bwrdd. Byddai'r cynlluniau mentora hyn yn rhoi cyfle i'r unigolion hynny fynychu ac arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

### **Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:**

#### **III. MP i ychwanegu sesiwn ar amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2022, a thrafodaeth bellach ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r Rhagolwg.**

## **9. Adroddiad Rheoli Risg a Chofrestr Risg Sefydliadol**

- 9.1. Cyflwynodd AS ac LE bapur QWB48.9.
- 9.2. Esboniodd AS fod yr holl gofrestrau risg bellach wedi'u dwyn ynghyd mewn un gofrestr, ac eithrio Cofrestr Haf 2021 sy'n cael ei monitro ar wahân ar hyn o bryd. Byddai'r gofrestr hon hefyd yn cael ei chyfuno ar ôl cyhoeddi canlyniadau gydag unrhyw risgiau gweddilliol sy'n weddill yn rhan annatod o'r gofrestr risg sefydliadol.
- 9.3. Cadarnhaodd AS i'r Bwrdd, fel rhan o'r broses adrodd ddiwygiedig, y byddai'r holl risgiau gyda sgôr gweddilliol o 12 ac uwch yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd. Darparodd AS hefyd ddiweddariad ar risgiau newydd a'r rhai a gynyddodd neu a leihaodd yn eu sgôr gweddilliol ers yr adroddiad diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys y risg newydd y gallai parhau i weithio o bell arwain at unigolion yn methu â 'diffodd' o'r gwaith, yn gweithio gormod o oriau a gorddefnydd o offer digidol a allai arwain at deimlo wedi llwyr ymlâdd.
- 9.4. Nododd AS yr angen i'r Bwrdd ailedrych ar ei awydd i fentro maes o law, ac mai'r bwriad oedd cynnal cyfarfod cychwynol gyda JW fel Cadeirydd ein Pwyllgor ARAC i drafod hyn. Yna, byddai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylai gweithgor bach gynnwys neu a allai'r eitem hon ddod yn syth i'r Bwrdd i'w hystyried.

- 9.5. Diolchodd y Bwrdd i AS ac LE am y papur, gan nodi bod y strwythur adrodd newydd yn ddefnyddiol nid yn unig i ddarparu trosolwg o'r dirwedd risg, ond hefyd ei fod yn caniatáu i'r Bwrdd ganolbwyntio ar y meysydd risg allweddol hynny i'r sefydliad.
- 9.6. Holodd y Bwrdd pa gamau ymarferol a fyddai'n cael eu cymryd yn ystod y broses o ddiwygio cymwysterau er mwyn rhoi sicrwydd bod unrhyw newidiadau a wnaed yn cyd-fynd yn ddigonol â'r cwricwlwm newydd, yn enwedig o ystyried cyhoeddiad diweddar yr OECD ar weithredu Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban.
- 9.7. Cyfeiriodd PB at yr ymarfer ymgysylltu dwys yr ydym yn ei gynllunio yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22. Awgrymodd PB hefyd y gallem ystyried comisiynu darn o waith a gynlluniwyd i ddarparu rhywfaint o graffu allanol i'n gwaith, a barn allanol ar y graddau y mae ein newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd.

## 10. Adroddiad Sicrwydd ARAC

- 10.1. Cyflwynodd JW bapur QWB48.10.
- 10.2. Esboniodd JW fod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith y mae ARAC wedi'i wneud eleni i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd fod y systemau rheolaeth fewnol, y trefniadau llywodraethu a'r gweithdrefnau rheoli risg yn parhau'n gadarn ac yn briodol. Cadarnhaodd JW fod Adroddiad ARAC ar gyfer 2020/21 yn rhoi sicrwydd o'r fath.
- 10.3. Cyfeiriodd JW at y 6 archwiliad mewnol a gynhaliwyd eleni, gyda 5 o'r rheini'n cael eu hystyried i roi lefel sylweddol o sicrwydd. Ychwanegodd JW fod y cyfrifon hefyd wedi cael eu harchwilio sawl gwaith cyn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd, a'u bod wedi cael adborth cadarnhaol gan Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon drafft heb unrhyw argymhellion sylweddol.
- 10.4. Llongyfarchodd y Bwrdd AS, KP a'r tîm Cyllid am eu gwaith diwyd ac ni ddarparodd unrhyw sylwadau pellach ar yr eitem hon.

## 11. Cyfrifon Blynyddol 2020/21

- 11.1. Cyflwynodd KP bapur QWB48.11.
- 11.2. Esboniodd KP mai nod yr eitem hon oedd ceisio cymeradwyaeth i PB fel Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r cyfrifon ac i PB a'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth. Cyfeiriodd KP at y gwaith a wnaed gan Bwyllgor ARAC ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a gobeithiai fod hyn wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.
- 11.3. Tynnodd KP sylw at y pwyntiau allweddol a gynhwyswyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- Bwriad Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi barn archwilio ddiamod, ac

- nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol, datganiadau heb eu cywiro nac unrhyw argymhellion perthnasol wedi'u darparu.
- 11.4. Cadarnhaodd KP, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, y byddai Cyfrifon Blynyddol 2020/21 a llythyr cynrychiolaeth yn cael eu hanfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w cymeradwyo'n ffurfiol ac y byddent wedyn yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru.
- 11.5. Unwaith eto, diolchodd y Bwrdd i AS, KP a'r tîm Cyllid am eu gwaith, JW yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor ARAC ac ni ddarparwyd unrhyw sylwadau pellach ar yr eitem hon.

## **12. Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb Ch1 2021/22**

- 12.1 Cyflwynodd LE a KP bapur QWB48.12.
- 12.2 Esboniodd LE mai dyma'r adroddiad cyntaf yr oedd y Bwrdd wedi'i dderbyn ar weithredu cynllun gweithredol 2021/2022.
- 12.3 Cadarnhaodd LE fod y Pwyllgor Adnoddau wedi edrych ar yr adroddiad hwn ar 8 Gorffennaf, a bod y rhagolygon ariannol a'r adroddiadau yn cyd-fynd ag adroddiad y cynllun gweithredol, gydag effaith ariannol newidiadau yn y ddarpariaeth yn llywio lefel y meysydd gwariant 'llai sicr'.
- 12.4 Cyfeiriodd LE at y gwaith sydd ar y gweill i ystyried newidiadau mewn gofynion adnoddau ar gyfer rhaglen waith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain.
- 12.5 Nododd KP fod yr Adroddiad Cyllideb hwn yn cwmpasu cyfnod chwarterol cyntaf y flwyddyn ariannol hon, ac y byddai adroddiadau tebyg yn cael eu darparu i'r Bwrdd ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Atgoffodd KP y Bwrdd ein bod wedi dechrau'r flwyddyn gyda chyllideb o £9.853m, a bod o leiaf £1m o hyn yn cael ei ystyried yn amrywiol a byddai angen ei gryfhau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.
- 12.6 Cadarnhaodd KP nad oedd sefyllfa'r gyllideb gronnol yn wahanol iawn i'r gyllideb, a bod y rhagolygon gwariant presennol wedi'i addasu fymryn. Nododd KP fod y newidyn allweddol yn parhau i fod yn gysylltiedig â Cymwys ar gyfer y Dyfodol ond ei fod yn obeithiol y gellid tynhau'r rhagolygon sy'n ymwneud â'r gwaith hwn dros yr wythnosau nesaf. Cadarnhaodd KP hefyd fod crynodeb manwl o'r adolygiad o'r gyllideb hefyd wedi'i ddarparu yn ARAC a'r Pwyllgor Adnoddau yn ddiweddar.
- 12.7 Cyfeiriodd y Bwrdd at y ddarpariaeth ariannol a neilltuwyd ar gyfer heriau cyfreithiol posibl a holodd a fyddai hyn yn ddigonol pe bai sawl her gyfreithiol. I'r perwyl hwnnw, gofynnodd y Bwrdd a fyddai angen i'r arian hwnnw ddod o'r gyllideb weithredu, neu a fyddai Cymorth ariannol ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

- 12.8 Cadarnhaodd PB ac AS y byddai angen cynnal trafodaethau pellach gydag Uned Nawdd Llywodraeth Cymru pe bai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, roedd y trafodaethau hyn yn debygol o gael eu cymhlethu ymhellach gyda Llywodraeth Cymru o bosibl yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig mewn achosion o'r fath.
- 12.9 Nododd y Bwrdd y Cynllun Gweithredol a'r Adroddiad Cyllideb ac ni ddarparwyd unrhyw sylwadau pellach.

### 13. Diweddariadau'r Pwyllgorau

- 13.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Adnoddau ac ARAC wedi'i gynnal yn ddiweddar a gofynnodd am ddiweddariad llafar gan y ddau Gadeirydd.
- 13.2 Nododd y RLG fod y Pwyllgor Adnoddau wedi cyfarfod ar 8 Gorffennaf a'u bod wedi edrych ar y Cynllun Gweithredol a'r Gyllideb ar gyfer 2021/22 a oedd wedi'u cynnwys o dan eitem 12 ar yr agenda a materion yn ymwneud ag Adnoddau Dynol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lefelau staffio a diwygiadau i rai polisïau adnoddau dynol.
- 13.3 Nododd JW fod Pwyllgor ARAC wedi cyfarfod ar 6 Gorffennaf a bod Gwasanaethau Archwilio Mewnol y sefydliad wedi cael eu hail-dendro'n llwyddiannus.

### 14. Rhagolwg

- 14.1 Rhoddodd MP drosolwg o'r Rhagolwg a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag ef pe bai unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu yn y dyfodol.
- 14.2 Nododd y Cadeirydd y byddai angen gwneud rhai penderfyniadau yn ymwneud â'r ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol diweddar yng nghyfarfod mis Medi a gofynnodd i'r eitem hon gael ei rhoi'n weddol gynnar yn yr agenda er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer y drafodaeth honno.

### 15. Unrhyw fater arall

- 15.1. Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.
- 15.2. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am gynhyrchu a chyflwyno papurau ar gyfer y cyfarfod prysur hwn.

Diwedd